monmouthshire
sir fynwy

# AMCANION A DATGANIAD LLESIANT

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017 / 2018

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ddiben clir i helpu adeiladu cymunedau a chryf sy'n cefnogi llesiant cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Fe wnaethom osod pedwar amcan llesiant yn 2017/18 ac mae'r daflen hon yn crynhoi ein cynnydd arnynt a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i wneud y cyngor yn fwy effeithiol aceffeithlon a chynllunio ar gyfer y tymor hirach. Mae ein Cynllun Corfforaethol 'Sir Fynwy sy'n gweithio i bawb' yn gosod y nodau y bydd y Cyngor yn gweithio atynt erbyn 2022.


www.monmouthshire.gov.uk/improvement

improvement@monmouthshire.gov.uk

@MonmouthshireCC


Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



## RHOI'R DECHRAU GORAU POSIBL MEWN BYWYD I BLANT A PHOBL IFANC I'W HELPU I SICRHAU CANLYNIADAU GWELL

**93.2%**
**O DDISGYBLION**
WEDI GADAEL YSGOL GYNRADD GYDA'R LEFEL DDISGWYLIEDIG MEWN MATHEMATEG, SAESNEG A GWYDDONIAETH

**67%**
**O DDISGYBLION**
WEDI ENNILL O LEIAF 5
**TGAU GRADD A* - C**
(YN CYNNWYS SAESNEG A MATHEMATEG)

Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i wella cyrhaeddiad addysgol ar bob cyfnod allweddol. Mae canlyniadau arholiadau haf 2017 yn gadarnhaol yn gyffredinol, er fod rhai meysydd sydd angen eu gwella ymhellach.

I annog ffyrdd egnïol o fyw mewn plant a phobl ifanc, rydym wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae cynlluniau megis darpariaeth chwaraeon anabledd Insport, Rhaglen Gwneuthurwyr Chwarae, Gemau Sir Fynwy ac annog mwy o blant i fod yn egnïol gyda'r Filltir Ddyddiol wedi cynyddu lefelau gweithgaredd ac wedi helpu i addysgu pobl ifanc am bwysigrwydd ffordd iach o fyw.

## CYNYDDU I'R EITHAF Y POTENSIAL YN EIN CYMUNEDAU I WELLA LLESIANT AR GYFER POBL AR HYD EU BYWYDAU

**54.1%**
**O OEDOLION YN DERBYN GOFAL A CHYMORTH**
YN TEIMLO Y GALLENT WNEUD Y PETHAU SY'N BWYSIG IDDYNT

**71.3%** **O OEDOLION**
YN DAL I FYW'N ANNIBYNNOL YN EU CARTREFI EU HUNAIN 6 MIS AR ÔL DERBYN AILALLUOGI

Buom yn gweithredu ffordd newydd o gyflwyno gofal cymdeithasol yn y cartref lle, yn hytrach na chanolbwyntio ar gwblhau tasgau mewn cyfnodau byr, mae gofalwyr cartref yn gweithio'n fwy hyblyg gyda phobl yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Drwy ganolbwyntio ar gefnogi pobl yn y ffordd hon, gobeithiwn weld gwelliannau mewn canlyniadau a llesiant personol.

Bu gwirfoddoli ac arweinyddiaeth gymunedol yn ffocws i gefnogi ein gwirfoddolwyr presennol ac annog mwy o breswylwyr i gymryd rhan yn eu cymunedau. Fe wnaethom gyflwyno system newydd ar gyfer hysbysebu cyfleoedd, recriwtio gwirfoddolwyr newydd a chyfathrebu gyda gwirfoddolwyr presennol.

Rydym hefyd wedi bod yn rhedeg Rhaglen 'Be. Cymuned' a gynlluniwyd i gynyddu cyfranogiad ac ansawdd arweinyddiaeth gymunedol.

## CYNYDDU I'R EITHAF FANTEISION YR AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG AR GYFER LLESIANT CENEDLAETHAU HEDDIW A'R DYFODOL

YN 2017
DENODD SIR FYNWY
**2.3 MILIWN O YMWELWYR**
CYNHYRCHODD TWRISTIAETH
**£204 MILLION** AR GYFER
YR ECONOMI LLEOL

MAE GAN EIN FFERM
SOLAR GAPASITI I
GYNHYRCHU DIGON O YNNI
I GYFLENWI TRYDAN I
**1,400 O GARTREFI**

Rydym wedi datblygu cynllun twristiaeth newydd ar gyfer Sir Fynwy i gynyddu i'r eithaf fanteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol twristiaeth ar draws pob rhan o'r sir. Yn 2017, daeth 2.3 miliwn o ymwelwyr i'n sir gan gynhyrchu cyfanswm effaith economaidd o £204 miliwn.

Rydym wedi datblygu fferm solar yn Crug a all gynhyrchu digon o drydan ar gyfer tua 1,400 o gartrefi. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân yn cyfrannu at ymgyrch y cyngor i ostwng ein ôl-troed carbon.

## DATBLYGU CYFLEOEDD AR GYFER CYMUNEDAU A BUSNESAU I SICRHAU SIR LEWYRCHUS GYDA CHYSYLLTIADAU DA

FE WNAETHOM
SICRHAU **£1.25 MILIWN** O
GYLLID GAN LYWODRAETH
Y DEYRNAS UNEDIG
I DDATBLYGU DATRYSIADAU
TECHNOLEGOL I ARWAHANR
- WYDD A CLUDIANT GWLEDIG

BARGEN
DDINESIG
PRIFDDINAS
- RANBARTH
CAERDYDD
YN ANELU I DDARPARU
**25,000 O SWYDDI NEWYDD**
ACROSS THE REGION

Mae'r cyngor, ynghyd â 9 awdurdod lleol arall sy'n bartneriaid yn Ne Ddwyrain Cymru, wedi cytuno ar gynllun busnes pum mlynedd newydd ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gost o £1.2 biliwn. Un o nodau'r Fargen Ddinesig yw creu 25,000 o swyddi newydd.

Gan nad yw nifer o dargedau tai yn cael eu cyflawni, mae cynghorwyr wedi cymeradwyo gwaith i greu Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd hyn yn sicrhau fod y cyngor yn rheoli cynigion i ddefnyddio tir ar gyfer cartrefi newydd, busnesau a seilwaith ac yn tyfu yn unol â'r heriau a'r newidiadau pwysig sy'n ein hwynebu.

Buom yn llwyddiannus mewn cais i Swyddfa'r Cabinet i sicrhau hyd at £1.25 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i annog busnesau technoleg i ddatblygu a threialu datrysiadau er mwyn lleihau unigedd a diffyg trafnidiaeth wledig yn ein cymunedau gwledig.

# CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL


**Mae Sir Fynwy yn lle anhygoel i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. Rydym eisiau darparu'r gwasanaethau a chreu'r amodau sy'n galluogi pobl, cymunedau a busnesau i ffynnu, heddiw a hefyd yn y dyfodol. Fodd bynnag rydym hefyd yn wynebu heriau yn cynnwys pwysau ar y gyllideb sy'n golygu na allwn ddal ati i wneud popeth yn yr un ffordd.**

**Mae ein Cynllun Corfforaethol 2017/22 yn canolbwyntio ar y pethau y byddwn yn rhoi blaenoriaeth iddynt. Nid yw'n disgrifio popeth a wnawn ond dylai roi digon o wybodaeth i ddeall y pethau mawr yr ydym yn gweithio arnynt a dal y cyngor i gyfrif amdanynt. Mae gennym bum nod sefydliadol, sydd hefyd yn cynnwys ein hamcanion llesiant, a gefnogir gan 22 ymrwymiad i weithredu y byddwn yn eu cymryd a'r ffyrdd y cânt eu mesur.**

**Fel aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Fynwy rydym hefyd yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r sector gwirfoddol i gyflawni cynllun llesiant lleol y sir. Dangosir yr amcanion ar gyfer y sir a'r nodau ar gyfer y gwasanaeth yn y diagram islaw.**

## AMCANION LLESIANT BWRDD Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## NODAU CYNGOR SIR FYNWY



**Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc**

**Y cychwyn gorau posib mewn bywyd**

**Ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd**

**Llesiant gydol oes**

**Amddiffyn a gwella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol tra cwtogir effaith newid hinsawdd ac addasir iddo**

**Mwyafu potensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig**

**Datblygu cyfleoedd i gymunedau a busnesau fod yn rhan o sir sydd â chysylltiadau da ac sy'n ffynnu'n economaidd**

**Thriving and well-connected county**

**Cyngor blaengar sy'n canolbwyntio ar y dyfodol**